Arolygiaeth Gofal Cymru
Care Inspectorate Wales

Estyn
Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Sŵn y Don Playgroup

**Ysgol Sŵn y Don**
**Penmaen-rhos, Hen Golwyn**
**Hen Golwyn**
**Conwy**
**LL29 9LL**

**Dyddiad yr arolygiad: Mai 2022**

**gan**

**Arolygiaeth Gofal Cymru (AGC)**

**ac**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn â Sŵn y Don Playgroup

| | |
|---|---|
| Enw'r lleoliad | Sŵn y Don Playgroup |
| Categori'r gofal a ddarperir | Gofal dydd llawn, gan gynnwys gofal ar ôl yr ysgol |
| Person(au) cofrestredig | Amherthnasol |
| Unigolyn cyfrifol (os yw'n berthnasol) | Bernadette Thomas |
| Person â chyfrifoldeb | Suzanne Pearce |
| Nifer y lleoedd | 15 lle ymhob sesiwn |
| Ystod oedran y plant | 2 i 11 oed |
| Nifer y plant 3 a 4 oed | 18 |
| Nifer y plant sy'n derbyn cyllid ar gyfer addysg gynnar | 7 |
| Diwrnodau/amseroedd agor | Dydd Llun i ddydd Gwener<br>9.00am i 2.45pm<br>a<br>2.45pm i 5.30pm – Clwb ar ôl yr Ysgol |
| Gwasanaeth Dechrau'n Deg | Ydy |
| Iaith y lleoliad | Saesneg |
| A yw'r lleoliad hwn yn gweithredu'r Cynnig Gofal Plant? | Ydy |
| Cynnig Rhagweithiol o ran y Gymraeg | Nid yw'r gwasanaeth hwn yn darparu'r 'Cynnig Rhagweithiol' o ran y Gymraeg. Nid yw'n rhagweld, yn nodi nac yn diwallu anghenion Cymraeg y bobl / y plant sy'n defnyddio'r gwasanaeth, neu sy'n bwriadu defnyddio'r gwasanaeth. Rydym yn argymell bod y darparwr gwasanaeth yn ystyried 'Mwy na geiriau' gan Lywodraeth Cymru, sef y canllawiau strategol olynol ar gyfer y Gymraeg mewn gofal cymdeithasol. |

| | |
|---|---|
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan AGC | Dyma'r arolygiad cyntaf yn dilyn cofrestru ar 01.07.2019. |
| Dyddiad yr arolygiad diwethaf gan Estyn | Dyma'r arolygiad cyntaf |
| Dyddiad yr arolygiad hwn | 24/05/2022 |

## Diffyg cydymffurfio

Nodwyd diffyg cydymffurfio gennym mewn perthynas â Gofal a Datblygu, yr Amgylchedd, ac Arweinyddiaeth a Rheolaeth ac rydym wedi dyroddi Hysbysiadau Gweithredu â Blaenoriaeth i'r darparwr.

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer y bobl, a/neu risg i lesiant y bobl yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth. Rhaid i'r darparwr gymryd camau brys i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu â chymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

Mae gwybodaeth am yr holl achosion o ddiffyg cydymffurfio wedi'i chynnwys yn yr Adroddiad Cryno ar Gamau Gweithredu a Gwelliant, a fydd yn cael ei anfon ar wahân i'r adroddiad gan AGC.

## Argymhellion

A1 Sicrhau bod ymarferwyr yn defnyddio strategaethau effeithiol i ddatblygu sgiliau cyfathrebu ac iaith yr holl blant

A2 Defnyddio arsylwadau o chwarae ac archwilio'r plant i gefnogi eu dysgu a'u datblygiad

A3 Datblygu'r amgylchedd ymhellach i hyrwyddo dysgu trwy chwarae ar draws y cwricwlwm

A4 Cryfhau prosesau ar gyfer hunanwerthuso a chynllunio gwelliant i sicrhau effaith glir ar ddysgu a datblygiad

A5 Sicrhau bod gan y lleoliad bolisïau a gweithdrefnau effeithiol sy'n cael eu dilyn yn gyson

A6 Mynd i'r afael â'r meysydd o ddiffyg cydymffurfio a nodwyd yn ystod yr arolygiad

## Beth sy'n digwydd nesaf

Mae Prif Arolygydd Ei Mawrhydi Estyn a Phrif Arolygydd Arolygiaeth Gofal Cymru o'r farn bod angen gwelliant â ffocws mewn perthynas â'r lleoliad hwn. Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu i ddangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion. Bydd Estyn ac AGC yn monitro cynnydd y lleoliad.

## Prif ganfyddiadau

**Llesiant:**

Mae gan bob un o'r plant ymdeimlad da o berthyn. Maent yn teimlo'n gartrefol, yn hapus ac yn hyderus, er enghraifft yn gwneud sŵn sychwyr y sgrin wynt wrth iddynt esgus gyrru bws. Mae'r plant yn y clwb ar ôl yr ysgol yn chwarae gyda'i gilydd yn dda, er enghraifft wrth fwynhau gemau dychmygol fel chwarae cuddio.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn cyrraedd yn eiddgar ac yn ymdopi'n dda iawn wrth iddynt wahanu oddi wrth eu rhieni a'u gofalwyr. Maent yn ffurfio cysylltiadau agos gyda'r ymarferwyr, sy'n cael effaith gadarnhaol ar eu llesiant a'u cymhelliant. Mae mwyafrif y plant yn ymgartrefu heb unrhyw anhawster. Mae'r rhai sy'n cael trafferth yn cael cysur a sicrwydd tyner gan yr ymarferwyr. Mae'r plant yn ymwybodol y bydd yr ymarferwyr yn gwrando ar eu dewisiadau ac yn ymdrechu i ymateb i'w hanghenion. Maent yn mynd at yr ymarferwyr pan fyddant wedi cael dolur ac yn cael cysur ganddynt.

Mae tua hanner y plant yn gwneud dewisiadau pwrpasol. Mae'r plant hyn yn siarad yn hyderus yn ystod gweithgareddau grŵp megis amser cylch ac amser byrbryd. Er enghraifft, mae'r plant yn gofyn am fwy o laeth yn ystod amser byrbryd. Maent yn symud yn hyderus rhwng gwahanol weithgareddau, gyda rhai yn dewis defnyddio'r adnoddau chwarae rôl yn y gornel gartref tra bo eraill yn mynd allan i chwarae yn yr hambwrdd tywod. Mae'r plant yn y clwb ar ôl yr ysgol yn gwneud dewisiadau priodol am eu chwarae, er enghraifft chwarae yn yr awyr agored neu wylio'r teledu. Mae tua hanner y plant yn mynegi eu barn yn glir ac yn cyfleu eu hanghenion a'u hoffterau gan ddefnyddio cliwiau dieiriau fel pwyntio. Mae gan y plant nad ydynt yn barod i eistedd amser cylch y rhyddid a'r dewis i archwilio eu hamgylchedd dysgu yn hapus.

Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn frwdfrydig ac yn ymddiddori yn eu chwarae am beth amser. Fodd bynnag, nid ydynt bob amser yn cael ymdeimlad o gyflawniad gan fod mynediad at adnoddau sy'n briodol i'w hoedran yn gyfyngedig. Mae ychydig o'r plant yn canolbwyntio am gyfnod priodol o amser, er enghraifft wrth ddangos cyffro wrth ddefnyddio rhidyll yn yr hambwrdd tywod, gan fwynhau teimlad y tywod ar eu croen. Mae'r plant yn ymateb yn dda i anogaeth a chyfarwyddiadau gan yr ymarferwyr ac yn ymuno'n frwdfrydig yn y sesiwn ganu amser cylch. Mae lleiafrif o'r plant iau yn teimlo ymdeimlad o falchder wrth iddynt rolio toes chwarae yn llwyddiannus. Nid yw lleiafrif o'r plant hŷn bob amser yn dangos parch at yr adnoddau. Er enghraifft, gollyngwyd cyfrifiadur llaw i'r llawr ac roedd eraill yn sefyll arno.

Mae ychydig o'r plant yn cwblhau tasgau hunanofal yn annibynnol, neu gydag anogaeth y staff os oes angen. Er enghraifft, maent yn golchi eu dwylo ar adegau priodol. Fodd bynnag, collir cyfleoedd i'r plant iau ddatblygu annibyniaeth amser byrbryd gan nad ydynt yn trefnu eu platiau a'u cwpanau, yn helpu eu hunain i fwyd, nac yn arllwys eu diod eu hunain. Caiff y plant hŷn yn y clwb ar ôl yr ysgol fwy o gyfleoedd i fod yn annibynnol, er enghraifft torri eu ffrwythau eu hunain.

**Dysgu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Ar y cyfan, mae’r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd priodol yn eu dysgu a’u datblygiad ar draws y cwricwlwm. Maent yn mynd at adnoddau yn hyderus gydag annibyniaeth gynyddol. Mae'r rhan fwyaf o'r plant yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu sgiliau personol a chymdeithasol. Er enghraifft, maent yn chwarae ochr yn ochr yn hapus ac yn rhannu adnoddau gydag ychydig o gymorth. Mae ychydig o'r plant yn cydweithio'n llwyddiannus wrth iddynt esgus gyrru bws neu baentio â dŵr. Mae ychydig o'r plant yn dangos caredigrwydd yn ddigymell megis pan fyddant yn cyfarch ffrind gyda chwtsh.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn dangos mwynhad a phleser wrth iddynt ddatblygu eu sgiliau corfforol yn effeithiol. Maent yn datblygu eu cryfder a'u cydsymudiad wrth reidio treiciau a sgwteri, gan ddelio â rhwystrau yn llwyddiannus. Mae mwyafrif y plant yn cydbwyso'n dda wrth iddynt herio eu hunain i gerdded ar hyd estyllen gul. Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn defnyddio ystod o offer fel sgwpiau a rholbrennau yn effeithiol yn eu chwarae.

Mae’r rhan fwyaf o'r plant yn datblygu eu sgiliau cyfathrebu a llythrennedd yn briodol. Mae'r mwyafrif yn deall ac yn dilyn cyfarwyddiadau syml ac yn ymuno â chaneuon a rhigymau cyfarwydd. Maent yn siarad gan ddefnyddio geiriau ac ymadroddion ac mae rhai yn defnyddio brawddegau byr. Fodd bynnag, nid yw lleiafrif o'r plant bob amser yn gwneud cynnydd effeithiol wrth ddatblygu eu sgiliau iaith a chyfathrebu. Mae lleiafrif o'r plant yn gwrando’n astud ar storïau yn ystod amser stori ac yn ateb cwestiynau syml am y testun. Mae lleiafrif o'r plant yn datblygu eu sgiliau Cymraeg yn briodol. Maent yn ymateb i ystod o eiriau ac ymadroddion Cymraeg yn gadarnhaol ac yn ymuno mewn caneuon a rhigymau'n addas. Mae ychydig o'r plant yn dewis hoff lyfrau yn annibynnol ac yn mwynhau edrych ar y lluniau. Mae llawer o'r plant yn datblygu eu sgiliau gwneud marciau yn addas ac yn mwynhau defnyddio pinnau marcio wrth îsl. Mae rhai o’r plant yn mwynhau defnyddio bwrdd gwyn rhyngweithiol i wneud marciau ar raddfa fawr. Fodd bynnag, yn gyffredinol, nid yw sgiliau digidol y plant wedi'u datblygu'n ddigonol.

Mae’r rhan fwyaf o’r plant yn datblygu eu sgiliau rhifedd yn briodol. Maent yn adrodd y rhifau mewn trefn i o leiaf pump, er enghraifft pan gânt eu hannog i gyfrif eu camau neu nifer y plant sy’n chwarae mewn grŵp. Mae ychydig iawn ohonynt yn adnabod rhifau mwy, fel y rhif 12 ar ffotograff o fws. Mae rhai o'r plant yn gwneud cymariaethau ac yn defnyddio geirfa fathemategol yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn esbonio bod gan ffrind 'fwy' o does chwarae.

Mae mwyafrif y plant yn datblygu eu dychymyg yn addas, fel pan fyddant yn esgus chwarae ag awyren deganau. Mae ychydig o'r plant yn archwilio ac yn dangos chwilfrydedd. Er enghraifft, maent yn ychwanegu dŵr at bapur tusw ac yn arsylwi ar y lliwiau'n rhedeg i lawr y papur. Fodd bynnag, ar y cyfan, mae hyder y plant i fynegi eu hunain yn greadigol heb ddatblygu digon.

**Gofal a datblygiad:**

Mae'r ymarferwyr yn trefnu'r adeilad yn dda i hyrwyddo dysgu, annibyniaeth, chwilfrydedd a sgiliau datblygiadol y plant. Er bod yr ystafell yn fach, maent yn trefnu

ardaloedd mewnol i ddarparu ystod addas o gyfleoedd chwarae i'r plant sy'n eu hannog i symud o un gweithgaredd i'r llall. Mae cynllunio gweithgareddau ac olrhain cynnydd plant heb eu datblygu digon. Mae diffyg arsylwadau yn arwain at golli cyfleoedd i ddatblygu plant ymhellach. Mae cyfleoedd i'r plant ddysgu am y byd o'u cwmpas yn gyfyngedig, er bod yr ymarferwyr yn cynllunio ychydig o weithgareddau o amgylch dathliadau diwylliannol.

Mae gan yr ymarferwyr ymagwedd gyfeillgar a gofalgar ac maent yn rheoli rhyngweithio â'r plant yn gadarnhaol. Maent yn canmol y plant yn gyson am eu hymdrechion ac yn dathlu eu cyflawniadau. Mae'r ymarferwyr yn ymatebol i'r plant; maent yn gwrando ar eu dewisiadau a'u ceisiadau ac yn eu parchu. Nid yw trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni'r gofynion ac maent yn peri pryder. Nid yw pob ymarferydd yn deall yn llawn y broses a'r weithdrefn sy'n gysylltiedig â'r polisi mewn perthynas â chofnodi materion diogelu. Nid ydynt bob amser yn cadw cyfrinachedd mewn cofnodion ac nid ydynt bob amser yn cynnwys digon o fanylion am y camau a gymerwyd. Cwblheir cofnodion damweiniau a chânt eu llofnodi gan rieni a gofalwyr. Fodd bynnag, mae diffyg manylder yn y system bresennol ar gyfer cofnodi damweiniau – er enghraifft, lleoliad anafiadau – ac mae rhai llofnodion yn annarllenadwy. Mae gan yr ymarferwyr ymwybyddiaeth addas o weithdrefnau diogelwch tân. Fodd bynnag, cynhelir ymarferion tân gyda'r ysgol ac nid ydynt yn cynnwys y plant sy'n mynychu'r clwb ar ôl yr ysgol.

Mae ymarferwyr yn deall polisïau a gweithdrefnau iechyd, diogelwch a llesiant y lleoliad ond nid ydynt bob amser yn eu gweithredu'n effeithiol. Mae'r ymarferwyr yn hybu ffyrdd iach o fyw ac yn annog y plant i fwyta'n iach. Fodd bynnag, nid ydynt yn ymwybodol o ble i ddod o hyd i wybodaeth am ofynion deietegol plant unigol. Mae'r ymarferwyr yn golchi eu dwylo'n rheolaidd ac yn delio â gofal personol yn briodol. Mae'r cyfleusterau toiled yn addas ac yn ystyried preifatrwydd ac urddas y plant. Fodd bynnag, nid yw risgiau diangen i iechyd a diogelwch y plant yn cael eu nodi bob amser, ac nid yw'r ymarferwyr yn ymateb yn effeithiol i groes-heintio posibl. Nid yw'r ymarferwyr bob amser yn goruchwylio'r plant yn dda. Er enghraifft, cafodd dau blentyn fân gytiau wrth dorri ffrwythau.

**Addysgu ac asesu (dim ond yn berthnasol i blant tair neu bedair oed nad ydynt yn cael addysg mewn lleoliad a gynhelir):**

Mae'r ymarferwyr yn darparu ystod o brofiadau chwarae y tu fewn a thu allan sy'n cefnogi dysgu a datblygiad y plant yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn darparu cyfnodau estynedig i'r plant arwain eu chwarae eu hunain yn llwyddiannus. Mae hyn yn sicrhau bod y plant yn cael amser i ddilyn eu diddordebau eu hunain yn addas. Mae'r ymarferwyr yn darparu cydbwysedd effeithiol rhwng y profiadau dysgu sy'n cael eu harwain gan y plant a'r profiadau dysgu dan gyfarwyddyd oedolion, gyda digon o amser i'r plant ddilyn eu diddordebau. Fodd bynnag, nid yw llawer o'r profiadau dysgu wedi'u cynllunio'n ddigon da i gynnal diddordeb y plant neu i gefnogi eu dysgu.

Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn hyrwyddo datblygiad personol a chymdeithasol y plant yn effeithiol. Er enghraifft, mae'r ymarferwyr yn annog y plant i gymryd eu tro a rhannu adnoddau. Mae'r lleoliad yn darparu cyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau corfforol yn effeithiol trwy weithgareddau fel reidio treiciau a sgwteri. Mae'r ymarferwyr yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu cydsymudiad wrth iddynt ddefnyddio offer megis rhawiau a brwshys. Mae'r ymarferwyr yn darparu ychydig o gyfleoedd

diddorol i'r plant gymryd rhan mewn gweithgareddau creadigol fel helpu'r plant i archwilio synau a chael mynediad at offerynnau taro fel gwneuthurwr glaw. Nid oes gan y plant fynediad rhydd i adnoddau peintio a deunydd collage, ac mae hyn yn cyfyngu ar y cyfleoedd sydd ar gael i'r plant archwilio a mynegi eu hunain yn rhydd.

Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn cefnogi datblygiad sgiliau llythrennedd y plant yn briodol. Mae'r ymarferwyr yn adeiladu ar sgiliau iaith a chyfathrebu'r plant yn addas trwy ganu caneuon a darllen storïau. Fodd bynnag, nid yw'r profiadau hyn bob amser yn llwyddo i ennyn diddordeb mwyafrif y plant. Mae rhai o’r ymarferwyr yn cefnogi sgiliau Cymraeg y plant yn addas trwy ganu rhigymau a chaneuon. Fodd bynnag, ychydig iawn o'r ymarferwyr sy’n modelu defnydd o’r Gymraeg yn ystod y sesiwn. Mae'r ymarferwyr yn annog sgiliau gwneud marciau'r plant trwy brofiadau buddiol fel defnyddio sialc lliw i fynegi eu hunain.

Mae'r lleoliad yn adeiladu ar ddealltwriaeth fathemategol y plant yn briodol. Er enghraifft, mae rhai ymarferwyr yn modelu iaith fel 'mawr' a 'hir' wrth i blant rolio toes chwarae. Ychydig iawn o'r ymarferwyr sy’n cefnogi'r plant i adeiladu ar eu sgiliau rhif yn addas – er enghraifft, trwy gyfri camau'r plant. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu cysyniadau ac iaith fathemategol y plant heb ei datblygu digon. Mae'r lleoliad yn darparu ychydig o gyfleoedd i'r plant ddatblygu eu sgiliau digidol trwy ddefnyddio teganau batri megis til chwarae. Fodd bynnag, cyfyngedig yw'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu sgiliau TGCh y plant yn gyffredinol.

Mae'r ymarferwyr yn darparu profiadau dysgu sy'n hyrwyddo datblygiad moesol, ysbrydol a diwylliannol y plant yn addas. Maent yn meithrin ymdeimlad o ryfeddod ac yn annog y plant i ofalu am bethau byw yn briodol. Er enghraifft, maent yn atgoffa'r plant i fod yn ofalus wrth iddynt arsylwi ar bry cop y maent yn dod o hyd iddo yn yr ardal allanol. Fodd bynnag, at ei gilydd, nid yw'r lleoliad yn darparu digon o gyfleoedd i'r plant ddysgu am bethau byw.

Mae rhyngweithio'r ymarferwyr gyda'r plant yn galonogol a chadarnhaol. Maent yn ymuno â'r plant yn eu chwarae ac yn cynnal sgyrsiau priodol â nhw. Mae rhai o’r ymarferwyr yn ymestyn meddyliau'r plant yn briodol trwy holi cwestiynau. Er enghraifft, maent yn annog y plant i ddychmygu beth y gallent ei weld yn y parc wrth iddynt esgus mynd ar daith. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o'r ryngweithio'n canolbwyntio'n ddigon da ar symud dysgu'r plant unigol yn ei flaen yn gynyddol.

Mae’r ymarferwyr yn cofnodi arsylwadau o gyflawniadau’r plant mewn lleiafrif o feysydd dysgu dros amser. Fodd bynnag, heb eu datblygu digon yw gweithdrefnau’r lleoliad ar gyfer arsylwi’r plant ac asesu eu cynnydd ar draws y cwricwlwm. O ganlyniad, nid oes gan ymarferwyr ddigon o wybodaeth am ddatblygiad plant unigol i sicrhau bod y ddarpariaeth yn diwallu eu hanghenion ac yn eu cefnogi i wneud y cynnydd gorau posibl ar draws y cwricwlwm.

**Yr amgylchedd:**

Mae arweinwyr yn darparu amgylchedd diogel a glân lle gall y plant chwarae a dysgu. Mae'r amgylchedd yn ddiogel ac wedi'i gynnal a'i gadw'n dda, dan do ac yn yr awyr agored. Nid yw’r arweinwyr bob amser yn sicrhau bod y mannau dysgu a chwarae wedi'u cynllunio'n dda i ddiwallu holl anghenion y plant. Er enghraifft, mae

prif ystafell y lleoliad yn fach ac mae'r gornel gartref yn orlawn, sydd yn arwain at y plant yn dringo dros y dodrefn fel y cadeiriau bach.

Nid yw'r arweinwyr yn sicrhau bod pob asesiad risg wedi'i ysgrifennu'n gynhwysfawr. Mae hyn oherwydd bod llawer o'r asesiadau risg yn benodol i'r ysgol yn hytrach nac i'r lleoliad. Nid oes asesiadau risg ar gyfer gwibdeithiau'r clwb ar ôl yr ysgol i'r parc, nad yw’n unol â pholisi gwibdeithiau'r lleoliad. Ers dyfodiad COVID-19, mae'r arweinwyr wedi cynyddu arferion glanhau ac yn sicrhau bod yr ymarferwyr yn dilyn canllawiau perthnasol a chyfredol.

Mae cynllun yr ardal chwarae yn hyrwyddo annibyniaeth yn llwyddiannus. Mae’r trefniadau ar gyfer storio teganau ac offer dan do yn addas ac yn hygyrch i'r plant. Mae adnoddau'n gyfyngedig. Er enghraifft, nid oes llawer o adnoddau naturiol ar gyfer y plant iau ac mae gemau cyfyngedig i’r plant sy'n mynychu'r clwb ar ôl yr ysgol. Nid yw’r arweinwyr bob amser yn darparu adnoddau digonol ar gyfer yr holl ystodau oedran sy’n mynychu’r lleoliad er mwyn codi ymwybyddiaeth y plant o’r byd o’u cwmpas. Mae'r arweinwyr wedi prynu adnoddau newydd er mwyn datblygu'r ardal chwarae yn yr awyr agored; mae hyn yn cynnwys hambyrddau tywod a dŵr mwy o faint a wal ddŵr. Mae'r ardal hon yn hygyrch i'r plant trwy gydol y dydd. Mae'r ardal chwarae awyr agored wedi'i threfnu'n ddigonol ac mae'n darparu ystod o offer i'r plant ddewis o'u plith i ddatblygu eu sgiliau echddygol manwl a chorfforol.

**Arweinyddiaeth a rheolaeth:**

Mae’r lleoliad wedi profi heriau sylweddol oherwydd pandemig COVID-19 a newidiadau i’r staff. Yn ddiweddar, bu cyfnod o ansefydlogrwydd sylweddol oherwydd newidiadau cyson yn yr arweinyddiaeth. Mae'r arweinydd presennol a'r dirprwy yn newydd i'w rolau. Er gwaethaf yr heriau, maent yn darparu darpariaeth gynnes a chroesawgar i'r plant.

Mae'r unigolyn cyfrifol a'r arweinwyr yn ymdrechu i ddarparu amgylchedd lle mae'r plant yn hapus ac yn gwneud cynnydd da. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr eto wedi sefydlu gweledigaeth a rennir sy’n sicrhau dull cyson o gefnogi dysgu'r plant. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o’r ymarferwyr, er gwaethaf eu hymrwymiad i'r ddarpariaeth a lles y plant, yn parhau i fod yn ansicr ynghylch sut i ddatblygu a gwella eu hymarfer.

Mae'r lleoliad wedi llunio datganiad o ddiben sy'n sicrhau bod y rhieni'n cael gwybodaeth berthnasol am y lleoliad. Mae'r arweinwyr yn darparu ystod addas o bolisïau ac yn rhannu’r rhain yn briodol gyda'r rhieni. Fodd bynnag, nid ydynt yn sicrhau bod yr holl bolisïau a gweithdrefnau angenrheidiol ar waith. Er enghraifft, nid yw agweddau ar weithdrefnau diogelu’r lleoliad yn bodloni’r gofynion. Mae hyn yn arwain at y mwyafrif o’r ymarferwyr fod yn ansicr ynghylch gweithdrefnau pwysig sydd wedi’u cynllunio i gadw’r plant yn ddiogel.

Mae gan y lleoliad drefniadau priodol ar gyfer nodi cryfderau a meysydd i’w gwella ac mae’r holl ymarferwyr wedi ymrwymo i wella ansawdd y ddarpariaeth a’r canlyniadau ar gyfer y plant. Mae’r arweinwyr yn gwneud defnydd buddiol o wybodaeth o ystod o ffynonellau i lywio’r broses hunanwerthuso. Er enghraifft, maent yn gweithio gyda’r awdurdod lleol i fyfyrio ar yr amgylchedd dysgu ac yn trefnu adnoddau i greu ardaloedd dysgu addas. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar annibyniaeth ac

ymgysylltiad y plant yn eu chwarae. Fodd bynnag, mae prosesau monitro a gwerthuso i gefnogi gwelliant parhaus yn gyfyngedig.

Mae’r rhan fwyaf o’r arweinwyr a’r ymarferwyr yn manteisio ar gyfleoedd ar gyfer datblygiad proffesiynol parhaus ac yn ymdrechu i wella eu perfformiad. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol, fel datblygu dealltwriaeth yr ymarferwyr o bwysigrwydd chwarae a arweinir gan blant. Fodd bynnag, nid yw'r arweinwyr wedi sicrhau bod yr holl ymarferwyr wedi mynychu’r hyfforddiant gofynnol. Er enghraifft, nid yw pob aelod newydd o staff wedi mynychu hyfforddiant diogelu. Mae'r arweinwyr yn cyfathrebu'n briodol â’r ymarferwyr i wella eu hymarfer. Fodd bynnag, nid yw recriwtio ar hyn o bryd yn bodloni'r rheoliadau ac nid oes systemau ar gyfer goruchwylio ac arfarnu ar waith. O ganlyniad, nid yw’r ymarferwyr yn cael cyfleoedd effeithiol i fyfyrio ar eu hymarfer a nodi targedau ar gyfer gwelliant.

Ar y cyfan, mae'r lleoliad yn gwneud defnydd addas o ymarferwyr ac adnoddau i gefnogi llesiant, chwarae a dysgu'r plant. Fodd bynnag, nid yw'r lleoliad yn cyflogi'r niferoedd gofynnol o ymarferwyr â chymwysterau addas. Mae hyn yn cyfrannu at y ffaith nad yw'r ffocws ar ddysgu a datblygiad y plant wedi'i ddatblygu'n ddigonol. Mae gan y lleoliad ystod briodol o bartneriaethau sy’n gwella ansawdd y ddarpariaeth a’r canlyniadau ar gyfer y plant. Er enghraifft, mae’r arweinwyr yn gweithio'n effeithiol gydag ystod o asiantaethau ac mae hyn yn sicrhau eu bod yn cefnogi anghenion dysgu ychwanegol y plant yn addas.

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan y lleoliad ac ar wefannau AGC ac Estyn (https://arolygiaethgofal.cymru) (www.estyn.llyw.cymru).

© Hawlfraint y Goron 2022: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 28/07/2022

| Crynodeb o Ddiffyg Cydymffurfio | |
|---|---|
| **Statws** | **Ystyr pob un** |
| **Newydd** | Nodwyd y diffyg cydymffurfio hwn yn yr arolygiad hwn. |
| **Adolygwyd** | Adolygwyd cydymffurfedd yn yr adolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. Mae'r dyddiad targed ar gyfer cydymffurfio yn y dyfodol a chaiff ei brofi yn ystod yr arolygiad nesaf. |
| **Ni chyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr adolygiad hwn ac ni chafodd ei gyflawni. |
| **Cyflawnwyd** | Profwyd cydymffurfedd yn yr arolygiad hwn ac fe'i cyflawnwyd. |

Rydym yn ymateb i ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau pan fo canlyniadau gwael ar gyfer pobl, a / neu risg i lesiant pobl, yn cael eu nodi drwy ddyroddi Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth.

Rhaid i'r darparwr gymryd camau ar unwaith i fynd i'r afael â hyn a gwneud gwelliannau. Pan fydd darparwyr yn methu cymryd camau blaenoriaeth erbyn y dyddiad targed, mae'n bosibl y byddwn yn uwchgyfeirio'r mater i Banel Gwelliant a Gorfodi.

| Hysbysiad(au) Gweithredu â Blaenoriaeth | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 20 | Nid yw'r staff bob amser yn dilyn ac yn gweithredu polisïau a gweithdrefnau'r lleoliad er mwyn diogelu'r plant yn effeithiol. Dylid sicrhau bod y staff yn dilyn ac yn gweithredu gweithdrefnau'r lleoliad yn gywir bob amser. | Newydd |
| 25 | Nid oedd nifer o'r risgiau i iechyd a diogelwch y plant wedi'u nodi yn y lleoliad. Dylid sicrhau bod pob rhan o'r safle perthnasol yn rhydd o beryglon i iechyd a diogelwch y plant. | Newydd |
| 28 | Nid yw'r staff a gyflogir i weithio yn y lleoliad wedi'u fetio'n ddigonol. Dylid sicrhau bod yr holl wiriadau addasrwydd ar waith ar gyfer pob aelod o staff. | Newydd |
| 27 | Nid yw'r plant bob amser yn derbyn gofal gan staff â chymwysterau addas ar gyfer eu rolau penodol. Dylid | Newydd |

| | | |
|---|---|---|
| | sicrhau bod pob plentyn yn derbyn gofal gan staff â chymwysterau addas. | |

Pan fyddwn yn dod o hyd i achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau ond ni nodir unrhyw risg uniongyrchol neu sylweddol ar gyfer pobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth, rydym yn amlygu'r rhain fel Meysydd i'w Gwella.

Rydym yn disgwyl y bydd y darparwr yn cymryd camau i gywiro hyn a byddwn yn mynd ar drywydd y camau hyn yn yr arolygiad nesaf. Pan fo'r darparwr wedi methu gwneud y gwelliannau angenrheidiol, byddwn yn uwchgyfeirio'r mater drwy ddyroddi Hysbysiad Gweithredu â Blaenoriaeth.

| **Maes/Meysydd i'w Gwella** | | |
|---|---|---|
| Rheoliad | Crynodeb | Statws |
| 29 | Nid oedd pob gweithiwr sy'n gofalu am y plant yn derbyn goruchwyliaeth ac arfarniadau rheolaidd. Dylid sicrhau bod yr holl staff yn derbyn sesiynau goruchwylio ac arfarniadau yn rheolaidd. | Newydd |
| 31 | Nid yw AGC wedi cael gwybod am newidiadau staff o fewn yr amserlenni gofynnol. Dylid sicrhau bod yr holl hysbysiadau am newidiadau staff yn cael eu gwneud mewn modd amserol. | Newydd |

| Sgoriau | Ystyr y sgoriau |
|---|---|
| **Rhagorol** | Dyma wasanaethau sy'n ymrwymedig i welliant parhaus ac sydd â llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o ymarfer ac arloesi sy'n arwain y sector. Mae'r gwasanaethau hyn yn darparu gofal a chymorth o ansawdd uchel a gallant ddangos eu bod yn gwneud cyfraniad cadarn tuag at wella llesiant plant. |
| **Da** | Dyma wasanaethau sydd â chryfderau a heb unrhyw feysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol. Maent yn rhagori ar y gofynion sylfaenol yn gyson, gan sicrhau canlyniadau cadarnhaol i blant, ac yn hybu eu llesiant yn rhagweithiol. |
| **Digonol** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o gryfderau na meysydd i'w gwella. Maent yn ddiogel ac yn bodloni'r gofynion sylfaenol ond mae angen gwelliannau er mwyn hybu llesiant a gwella canlyniadau i blant. |
| **Gwael** | Dyma wasanaethau lle mae mwy o feysydd pwysig i'w gwella na chryfderau a lle mae enghreifftiau arwyddocaol o ddiffyg cydymffurfio sy'n effeithio'n negyddol ar lesiant plant. Pan fydd gwasanaethau'n wael, byddwn yn cymryd camau gorfodi ac yn dyroddi hysbysiad o ddiffyg cydymffurfio. |

**Dyddiad cyhoeddi** 28 Gorffennaf 2022